Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board





# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update



*Cylchlythyr Wythnosol* *Weekly Newsletter* CYHOEDDIAD 23: wythnos **21/06/2021**

## Cynnydd Wythnosol (14 - 21 Mehefin)



**Rydym bellach wedi brechu 87% o boblogaeth oedolion y Byrddau Iechyd gyda dosau cyntaf i bawb 18 oed a hŷn.**
Rydym hefyd yn symud ymlaen yn dda gyda'r ail ddos gyda 91% o bobl dros 50 oed wedi'u brechu'n llawn.

## Peidio ag anghofio unrhyw un...

Ar ddydd Sadwrn 26 Mehefin, byddwn yn cynnal clinigau brechu galw heibio yn ein Clinigau Brechu Torfol yng Nghanolfan Casnewydd a Glynebwy. Mae'r clinig galw heibio hwn ar gyfer dosau cyntaf yn unig, ac mae ar agor i unrhyw un dros 18 mlwydd oed gan y bydd Pfizer ac AstraZeneca ar gael. Nid oes angen trefnu apwyntiad ond bydd angen ichi ddod ag ID.




**Details:**
**Dydd Sadwrn 26 Mehefin, 10am-4pm**

**Canolfan Hamdden Casnewydd, 1 Canolfan Ffordd y Brenin, Casnewydd, NP20 1UH**
**Swyddfeydd Cyffredinol Blaenau Gwent, Heol Gwaith Dur, Glynebwy NP23 6AA**



## Rhannwch eich stori, nid y feirws

Rhannwch y ffaith eich bod wedi cael y brechiad Covid ar eich straeon Instagram! Byddwn yn eu hail-rannu ar ein sianel a bydd y llun gorau'n ennill taleb Amazon gwerth £50
**Tagiwch ni @aneurinbevanuhb**
**Hashnod #BrechiadABUH**

*Arhoswch funud nes eich bod wedi gadael y ganolfan frechu cyn tynnu lluniau

## FFIGYRAU BRECHU

(hyd at 21/06/2021)

**Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)**

# 730,494

**Cyfanswm y dos cyntaf 426,492**
**Cyfanswm yr ail ddos 304,002**

| | | |
|---|---|---|
| Pobl 65 oed a'n hŷn | 96% | 94% |
| Grŵp 6 (Agored i Niwed) | 90% | 80% |
| Pobl 60-64 mlwydd oed | 94% | 91% |
| Pobl 55-59 mlwydd oed | 92% | 88% |
| Pobl 50-54 mlwydd oed | 90% | 81% |
| Pobl 40-49 mlwydd oed | 86% | 62% |
| Pobl 30-39 mlwydd oed | 78% | -- |
| Pobl 18-29 mlwydd oed | 74% | -- |

## Lefel yr amddiffyniad yn erbyn amrywiolyn Delta

**Yn ôl y data PHW diweddaraf, amcangyfrifir bod dos 1af y frechiad Covid yn cynnig amddiffyniad o 25-36% yn erbyn amrywiolyn Delta, gan ddiogelu rhag clefyd symptomatig. Mae'r ail ddos yn codi lefel yr amddiffyniad hyd at 77-82%. Felly mae'n bwysig eich bod yn derbyn y ddau ddos o frechiad Covid ar gyfer y diogelwch gorau posibl.**

Ar hyn o bryd rydym yn brechu pobl 40-49 oed gyda'u 2il ddos a bydd pobl 30-39 oed yn dechrau derbyn eu gwahoddiad i gael yr ail ddos dros yr wythnosau nesaf.

Os derbynioch eich dos 1af o Pfizer rhwng 7 Rhagfyr 2020 – 30 Ebrill 2021 ac nid ydych wedi cael gwahoddiad ar gyfer eich ail ddos eto, cwblhewch y ffurflen ganlynol ar ein gwefan: https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/overdue-pfizer-second-dose/

Os derbynioch eich dos 1af o AstraZeneca rhwng 4 Ionawr 2021 – 30 Ebrill 2021 ac nid ydych wedi cael gwahoddiad ar gyfer eich 2il ddos eto, cwblhewch y ffurflen ganlynol ar ein gwefan: https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/overdue-astrazeneca-second-dose/

Os cawsoch eich dos cyntaf o frechlyn AstraZeneca yn eich Meddygfa Teulu, byddant yn cysylltu â chi'n uniongyrchol i drefnu eich ail ddos.

**Ymunwch â'r miloedd sydd wedi cael eu brechu...**
**Ffoniwch 0300 303 1373 a byddwch yn cael cynnig apwyntiad dos cyntaf o fewn 72 awr.**




## Os ydych wedi cael eich brechiad

Mae'n cymryd amser i'ch corff feithrin amddiffyniad ar ôl unrhyw frechiad. Mae'n bwysig eich bod yn parhau i ddilyn yr holl ganllawiau diogelwch er mwyn helpu i ddiogelu eich hunan. Dylech barhau gyda dwylo, wyneb, gofod.

Am ragor o wybodaeth, ac i ganfod ym mha grŵp blaenoriaeth ydych chi, ewch i: https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-30-december-2020

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan: https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/




### Myfyriwr yn byw yng Ngwent?

Os ydych yn fyfyriwr sy'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ond nad ydych wedi cofrestru gyda Meddyg Teulu lleol, gallwch barhau i dderbyn brechiad yn un o'n Canolfannau Brechu Torfol drwy gwblhau'r ffurflen isod:

https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/student-living-in-gwent